# Pwyllgor Rheoli Datblygu

**03 Mehefin 2026**

Yn bresennol (yn bersonol)
Cynghorydd Dr SL Hancock (Cadeirydd)
Cynghorydd T Evans, Cynghorydd C George, Dr M Havard, Mr J Hogg, Cynghorydd M James, Cynghorydd V Thomas, Cynghorydd A Tinley a'r Cynghorydd M Williams.

Yn bresennol (o bell)
Cynghorydd M Bowen, Cynghorydd D Clements, Ms H Gwenllian, Mr GA Jones, Cynghorydd S Skyrme-Blackhall, Cynghorydd B Price a'r Cynghorydd C Williams.

Swyddogion yn bresennol
Ms K Attrill, (Rheolwr Rheoli Datblygu), Mr C Felgate (Cyfreithiwr), Ms H Whitear a Mr J Houser (Swyddogion Cynllunio), Mr M Higgins (Prif Gynllunydd), Mr M Kent (Swyddog Monitro), Mrs S Morris (Cyfarwyddwr Lle ac Ymgysylltu), Mrs C Llewellyn (Cofnodion)

[Parc Llanion, Doc Penfro a Rhithiol 10.00am – 11.50am;
12.10pm - 2.00pm]

**1. Ymddiheuriadau**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb wrth Miss F Day a Mrs S Hoss

**2. Datgelu buddiant**

Datgelodd yr Aelod(au)/Swyddog(ion) canlynol fuddiant yn y cais (ceisiadau) a'r/neu'r mater(ion) y cyfeirir atyn nhw isod:

| **Cais a chyfeirnod** | **Aelod(au)/Swyddog(ion)** | **Gweithred** |
|---|---|---|
| Cofnodion 6(e) ac 8 isod NP/26/0044/FUL and TPO168 – 11 Incline Way, Saundersfoot | Cynghorwyr T Evans, C George, S Hancock, M James, A Tinley ac M Williams; Dr M Havard a Ms H Gwenllïan | Aros yn y cyfarfod a chymryd rhan lawn yn y trafod a'r pleidleisio |
| Cofnodion 6(e) ac 8 isod NP/26/0044/FUL and TPO168 – 11 Incline Way, Saundersfoot | Cynghorydd V Thomas | Gadael y cyfarfod tra oedd y cais yn cael ei drafod |

**3. Cofnodion**

Cafodd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Ebrill 2026 eu cyflwyno i'w cadarnhau a'u llofnodi.

Yn dilyn cynnig gan y Cynghorydd Dr Hancock, wedi'i eilio gan Dr Havard, **penderfynwyd** cadarnhau a llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Ebrill 2026.

**Nodwyd.**

**4. Dyletswyddau'r Aelodau wrth Benderfynu Ceisiadau**

Roedd adroddiad y Cyfreithiwr yn crynhoi swyddogaeth y Pwyllgor oddi fewn i'r gyfundrefn gynllunio, gyda phwyslais penodol ar amcanion a dyletswydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol. Roedd yn mynd yn ei flaen i amlinellu pwrpas y gyfundrefn gynllunio ac ystyriaethau perthnasol wrth benderfynu, ac ychwanegodd y Cyfreithiwr bod angen rhoi ystyriaeth hefyd i'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol - Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040 a fabwysiadwyd gan Lywodraeth Cymru ar 24 Chwefror 2021 yn ogystal â'i Gynllun Datblygu Lleol 2 ei hun. Roedd yr Adroddiad hefyd yn nodi bod gan yr Awdurdod ddyletswydd hefyd i gyflawni datblygiad cynaliadwy, ystyriaethau ecolegol oedd yn cynnwys swyddogaeth Deddf Amgylchedd Cymru 2016, ystyriaethau hawliau dynol, canllawiau'r Awdurdod i aelodau ynghylch penderfyniadau yn y Pwyllgor, a hefyd yn gosod allan rhai amgylchiadau lle gellid gosod costau yn erbyn yr Awdurdod mewn apêl. Yn olaf, ychwanegodd y cyfreithiwr nad oedd yr adroddiad yn nodi bod penderfyniadau'r Awdurdod gan gynnwys cadarnhau GDC, yn agored i'w scrwtineiddio gan y llysoedd ac y medrent fod yn destun adolygiad barnwrol a'i bod felly yn bwysig eu bod yn seiliedig ar y gyfraith.

**Nodwyd.**

**5. Hawl i siarad yn y Pwyllgor**

Hysbyswyd yr Aelodau gan y Cadeirydd bod rhybuddion priodol (cyn y dyddiad sydd wedi ei nodi) wedi dod i law oddi wrth bartïon a oedd yn dymuno defnyddio eu hawl i siarad yn y cyfarfod y diwrnod hwnnw. Yn unol â phenderfyniad Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Rhagfyr 2011, wedi'i ddiwygio 16 Mehefin 2021, rhoddir yr hawl i siaradwyr i annerch am bum munud oni bai eu bod wedi siarad ar yr un cais cynt pan roddir tri munud iddyn nhw i gyflwyno gwybodaeth o'r newydd. *(mae'r partïon oedd â diddordeb wedi'u rhestru isod gyferbyn â'u cais (ceisiadau) penodol, ac yn y drefn y buon nhw'n cyfarch y Pwyllgor):*

| Rhif cyfeirnod | Cynnig | Siaradwr |
|---|---|---|
| NP/25/0574/S73<br>Cofnod 7(a)<br>cyfeir | Amrywio amodau rhif 1 a rhif 3 o NP/21/0773/OUT i ymestyn y caniatâd am dair blynedd arall - Hen fferm dwrcwns oddi ar Feidr Blockett, Aber Bach | Andrew Vaughan-Harries (Asiant) |
| NP/25/0515/FUL<br>Cofnod 7(b)<br>cyfeir | Ailadeiladu'r estyniad llawr gwaelod yng nghefn y tŷ, adeiladu pergola, newidiadau i'r to, ychwanegu grisiau dihangfa dân. Gosod ffenestri codi gwydr dwbl yn lle'r ffenestri gwydr sengl. Ychwanegu rheiliau i'r iard yn y tu blaen | Michael Howlett (Asiant) |
| NP/26/0044/FUL<br>Cofnod 7(e)<br>cyfeir | Estyniad i'r wal ddeheuol ynghyd â decin a chanllawiau cysylltiedig, ehangu'r cyntedd ffrynt, ychwanegu pibellau haul ar y to presennol, creu llefydd parcio athraidd, a sied newydd yn yr ardd, codi ffens 1.8m o uchder ar y ffin ddwyreiniol, a phwmp gwres o'r aer yn yr ardd gefn - Fox Lee, 11, Incline Way, Saundersfoot | Vanessa Thomas (Ymgeisydd) |

6. **Adroddiad Ceisiadau Cynllunio**

Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiadau manwl yr Arweinydd Tîm Rheoli Datblygu, ynghyd ag unrhyw ddiweddariadau a adroddwyd ar lafar ar y diwrnod ac sydd wedi'u cofnodi isod. Penderfynodd y Pwyllgor y ceisiadau yn y modd canlynol (*nodir y penderfyniad ynghylch pob un yn dilyn y manylion a nodir am y cais perthnasol*):

(a) Cyfeirnod: NP/25/0574/S73

Cynnig: Amrywio amodau rhif 1 a rhif 3 o NP/21/0773/OUT i ymestyn y caniatâd am 3 blynedd arall

Lleoliad: Hen fferm dwrcwns, tir oddi ar Feidr Blockett, Aber Bach, Hwlffordd, Sir Benfro, SA62 3UH

Adroddwyd bod y cais hwn yn cael ei gyflwyno gerbron y Pwyllgor am fod y Cyngor Cymuned wedi'i wrthwynebu gan godi ystyriaethau perthnasol

yn groes i argymhelliad y Swyddog i'w gymeradwyo. Roedd hefyd yn wyriad oddi ar y Cynllun Datblygu Lleol 2 oedd wedi'i fabwysiadu.

Roedd y cais yn gofyn am ganiatâd o dan Adran 73 o'r Ddeddf Gynllunio Gwlad a Thref 1990 i amrywio Amodau 1 a 3 oedd yn rhan o'r caniatâd cynllunio amlinellol NP/21/0773/OUT, er mwyn ymestyn y cyfnod amser i gyflwyno materion wrth gefn, a chychwyn y datblygiad, am dair blynedd bellach. Ystyriwyd yr amlinelliad  gwreiddiol gan y Pwyllgor Rheoli Datblygu ar 19 Hydref 2022. Cafodd y Cynllun Datblygu Lleol 2 a Dyfodol Cymru eu mabwysiadu pan waned y penderfyniad.

Roedd y caniatâd gwreiddiol yn ymwneud â chodi pedair annedd ar dir oddi ar Feidr Blockett, Aber Bach. Doedd y cais presennol ddim yn cynnig unrhyw newidiadau perthnasol i'r datblygiad oedd wedi'i gymeradwyo, a oedd yn dal yn ei ffurf amlinellol gyda phob mater wrth gefn. Roedd penderfynu'r cais hwn wedi'i oedi oherwydd newid amgylchiadau mewn perthynas â chyfarwyddyd ynghylch ACA morol gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) a gwybodaeth hawlen wrth Dŵr Cymru.

Roedd y datblygiad arfaethedig yn wyriad oddi ar Cynllun Datblygu Lleol 2 am ei fod yn cynnig datblygiad adeilad preswyl newydd mewn lleoliad oedd y tu fas i ffin ganol. Fodd bynnag, roedd statws tir llwyd y safle, a'i hanes cynllunio hirfaith, a'r penderfyniad cynllunio o dan NP/21/0773/OUT y byddai ail-ddatblygu'r rhan hwn o'r safle yn dderbyniol, yn dal i fod o gryn bwys. Roedd yr ystyriaethau perthnasol oedd yn eu lle pan roddwyd y caniatâd blaenorol yn dal yn berthnasol ac ystyriwyd eu bod yn cario mwy o bwysau na'r CDLl2 yn yr achos hwn. Yr argymhelliad oedd dirprwyo awdurdod i gymeradwyo'r cais yn dilyn  cwblhau'r cyfnod hysbysebu.

Adroddwyd yn y cyfarfod bod gwybodaeth hwyr wedi'i dderbyn wrth yr ymgeisydd yn esbonio, oherwydd anghydfod sifil roedd yna broblem mynediad i'r tir o'r de, ac felly doedden nhw ddim wedi gallu bwrw mlân â'r datblygiad, ond efallai y byddai'n bosib sicrhau mynediad o'r gogledd. Nododd y swyddog hefyd bod lluniau o'r awyr yn dangos bodolaeth cynhwysyddion morwrol ar y tir. Roedd mesurau i'w gwaredu ar y gweill trwy gamau gorfodaeth arwahan.

Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch gwybodaeth caniatâd, esboniodd y swyddog bod Dŵr Cymru wedi cynghori bod gwaith i atal gorddefnydd o Waith Trin Dŵr Gwastraff Waltwn i fod ei gwblhau erbyn 31 Rhagfyr 2026, ac roedd amod i gadarnhau bod y gwaith hwn wedi'i gyflawni wedi'i argymell i'w gynnwys gydag unrhyw ganiatâd.

Roedd yna un siaradwr ar y cais hwn, Mr Andrew Vaughan-Harries, yr asiant. Nododd fod y broblem ynghylch mynediad yn fater sifil rhwng yr

ymgeisydd a'i gymydog; gobeithiai y byddai'n bosib datrys yr anawsterau er mwyn bwrw ati i gyflawni'r datblygiad. Wrth danlinellu defnydd blaenorol y safle i fagu twrcwns ystyriai bod hyn yn warth ar y Parc Cenedlaethol cyn ei ddiddymu wrth gyfeirio at y Canllaw Cynllunio Ychwanegol 2021 oedd wedi paratoi'r ffordd ar gyfer ail-ddatblygu'r safle. Credai y byddai ymestyn y cyfnod amser ar gyfer cyflwyno materion wrth gefn ynghylch y cais cyfredol, ar gyfer datblygu'r safle yn synhwyrol, a byddai'n arwain at gyfraniad tuag at dai fforddiadwy yn y pen draw. Wrth gyfeirio at bryder y Cyngor Cymuned, ynghylch y feidr gul, nododd yr asiant y byddai'r feidr 30 mlynedd nôl wedi bod yn brysur gyda thrafnidiaeth amaethyddol. Ychwanegodd bod Aber Bach yn ardal dwristiaeth brysur beth bynnag a bod trafnidiaeth i'w ddisgwyl.

Gofynnodd un Aelod am y materion priffyrdd oedd wedi'u codi gan y Cyngor Cymuned ac atebodd y swyddog bod y cynnig yn bodloni'r Awdurdod Priffyrdd. Nodwyd hefyd y byddai disgwyl peth gwelliannau priffyrdd, yn ymwneud â datblygiad arall, a'r gobaith oedd y byddai hyn yn lliniaru rhywfaint o bryderon y Cyngor Cymuned.

Nododd yr Aelodau bod golwg y safle wedi gwella ers gwaredu'r siediau twrcwn a chafodd yr argymhelliad i ddirprwyo caniatâd, yn amodol ar osod amodau, ei gynnig gan y Cynghorydd Dr Hancock, a'i eilio gan y Cynghorydd Clements, a'i gario.

**Penderfyniad: Dirprwyo'r cais i'r swyddogion i'w gymeradwyo yn dilyn cwblhau'r cyfnod hysbysebu, ac yn amodol ar osod amodau yn ymwneud ag amseru cais y materion wrth gefn, yn unol â chynlluniau, cadarnhau gwaith wedi'i gyflawni yng Ngwaith Trin Dŵr Gwastraff Gorllewin Waltwn, lefelau tir, bioamrywiaeth, goleuo allanol, triniaeth ffiniau, draenio dŵr wyneb, parcio, diogelu coed, tirweddu, gwaredu hawliau Datblygiad wedi'i Ganiatáu, draenio a llygriad.**

| | | |
|---|---|---|
| (b) | Cyfeirnod: | NP/25/0515/FUL |
| | Cynnig: | Ailadeiladu'r estyniad llawr gwaelod yng nghefn y tŷ, adeiladu pergola, newidiadau i'r to, ychwanegu grisiau dihangfa dân. Gosod ffenestri codi gwydr dwbl yn lle'r ffenestri gwydr sengl. Ychwanegu rheiliau i'r iard yn y tu blaen |
| | Lleoliad: | Manorbier House, Maenorbŷr, Dinbych-y-pysgod, Sir Benfro, SA70 7TD |

Adroddwyd bod y cais wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor am fod y Cyngor Cymuned wedi gwrthwynebu'r cais yn groes i argymhelliad y swyddog i'w gymeradwyo.

Roedd yr eiddo hwn yn adeilad heb ei gofrestru, traddodiadol, yng nghanol Ardal Gadwraeth Maenorbŷr, wedi'i leoli yn amlwg oddi fewn i hanfod hanesyddol y pentref. Roedd ganddo ddefnydd cyfreithlon wedi'i hen sefydlu fel bistro, a doedd y cais ddim yn gofyn am newid defnydd, dim ond mân newidiadau yn cynnwys ail-adeiladu'r estyniad cefn gyda drysau patio, gardd pergola yn y cefn, rheiliau ffin yn y tu blaen a gosod ffenestri codi gwydr dwbl yn lle'r rhai gwydr sengl presennol. Roedd y cynlluniau wedi'u diwygio yn unol â'r cyngor a roddwyd gan Swyddog Cadwraeth APCP gyda'r ffenestri cromen cefn a'r grisiau allanfa dân allanol oedd yn y cynllun gwreiddiol nawr wedi'u hepgor.

Roedd nifer o bryderon gan drydydd parti wedi'u derbyn gan yr Awdurdod, nifer ohonyn nhw'n ymwneud â'r defnydd presennol yn hytrach na'r datblygiad arfaethedig, ac roedd y rhain wedi'u talfyrru yn yr adroddiad ynghyd â sylwadau perthnasol.

Nodwyd yn y cyfarfod bod amod cynllunio yn glwm wrth ganiatâd blaenorol yn cynnwys amod yn gwahardd defnydd wedi chwech o'r gloch. Roedd hwn yn fater gorfodaeth ar wahân ac roedd camau wedi'u cymryd. Daeth i'r amlwg nad oedd Adran Drwyddedu Cyngor Sir Penfro yn ymwybodol o'r amod hwn wrth ystyried trwyddedau Achlysuron Dros Dro, ac roedd hyn wedi arwain at ddryswch. Roedd John Murphy o'r Adran Drwyddedu yn bresennol yn y cyfarfod ac fe gadarnhaodd fod trefniant nawr mewn lle i wneud yn siŵr y byddid yn ymgynghori â'r Awdurdod ar faterion diogelu'r cyhoedd yn y Parc Cenedlaethol yn y dyfodol.

Roedd y cynllun arfaethedig yn cael ei ystyried yn dderbyniol o ran graddfa, ffurf, defnydd a dyluniad. Ni fyddai'r datblygiad yn achosi effaith niweidiol annerbyniol ar nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol. Ni ystyrid, o osod yr amodau a restrir yn yr adroddiad, y byddai'r datblygiad yn achosi effaith annerbyniol ar breifatrwydd neu fwynder eiddo gerllaw. Ni ystyrid y byddai nodweddion hanesyddol, ecolegol na nodweddion dirweddol yn cael eu heffeithio'n andwyol gan y datblygiad. O'r herwydd, roedd egwyddor y datblygiad yn gydnaws â pholisïau perthnasol y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) oedd wedi'i fabwysiadu ac roedd yn bosib ei gefnogi.

Roedd yna un siaradwr, Michael Howlett yr Asiant.  Fodd bynnag, roedd yr ymgeisydd, Amber Maytum, hefyd yn bresennol i ateb cwestiynau ac fe ddarllenodd yr Asiant ddatganiad ar ei rhan. Dywedodd bod y cais yn cynnwys crugyn o welliannau cymharol ddibwys i'r adeilad oedd hefyd yn gartref teuluol i'w theulu. Doedd e ddim yn gais yn gofyn am newid defnydd, ymestyn oriau agor na chynnal achlysuron ychwanegol. Nodwyd bod gan y tŷ hanes masnachol hir oedd wedi datblygu dros amser. Am ei fod yn adeilad hanesyddol roedd angen gofal parhaus ac roedd yn cael ei

adfer fesul tipyn pan oedd cyllid ar gael. Roedd y cynllun wedi'i ddiwygio mewn ymateb i bryderon swyddogion ac roedden nhw nawr yn gefnogol.

Nododd Mr Howlett bod nifer o'r pryderon trydydd parti yn ymwneud â materion gweithredu ehangach yn hytrach na'r gwaith penodol oedd wedi'i nodi yn y cais. Fodd bynnag, gan ei bod wedi'i geni a'i magu ym Maenorbŷr, roedd ei gleient yn deall pam roedd pobl yn pryderu am y pentref, ac roedd yn cydnabod bod ei chyfrifoldebau yn ymestyn i'r modd roedd yr eiddo yn gweithredu oddi fewn i'r gymuned, ac roedd wedi ymrwymo i weithio gyda'r adran drwyddedu, ac adrannau eraill er mwyn rheoli'r rhaglen achlysuron mewn modd priodol. Byddai hefyd yn cydweithio â'r Awdurdod i ddelio â chydymffurfio â'r amod cynllunio sydd mewn bodolaeth eisoes ynghylch y defnydd o'r ardd. Nodwyd bod y materion hyn ar wahân i'r cais oedd gerbron y Pwyllgor a oedd wedi'i argymell i'w gymeradwyo gan y swyddogion, a gofynnodd i'r Pwyllgor i gefnogi'r argymhelliad hwnnw.

Roedd yr Aelodau yn pryderu ynghylch y materion mwynder oedd wedi'u codi gan wrthwynebwyr ond ail-adroddodd y swyddogion bod y rheiny yn destun gorfodaeth. Nodwyd bod y cais ar y cyfan yn ymwneud â newidiadau y tu fewn i'r tŷ ac roedd amodau wedi'u cynnig i sicrhau na fyddai'r datblygiad yn achosi anhwylustod i gymdogion.

Roedd Aelodau yn cefnogi'r gwelliannau a fyddai'n adfer a chynnal cymeriad yr adeilad ac, ar yr un pryd, yn gwella'r cyfleusterau i'r perchnogion, ond roedden nhw hefyd yn gobeithio y bydden nhw'n ystyried mesuriadau bioamrywiaeth ychwanegol y tu hwnt i'r rhai sydd wedi'u nodi yn angenrheidiol gan amod tri. Cafodd yr argymhelliad i gymeradwyo ei roi gerbron gan y Cynghorydd George, ei eilio gan y Cynghorydd James a'i gario.

**Penderfyniad: Cymeradwyo'r cais gan osod amodau yn ymwneud ag amseriad y datblygiad, yn unol â chynlluniau a dogfennau wedi'u cymeradwyo, Datganiad Seilwaith Gwyrdd, goleuo, manylion ffin tu blaen, deunyddiau, rheoli sŵn, byrddau a strwythurau yn yr ardd a'r defnydd ohonyn nhw.**

| | | |
|---|---|---|
| (c) | Cyfeirnod: | NP/26/0154/FUL |
| | Cynnig: | Newid defnydd tir ar gyfer gwersylla, lleoli pump pod tir ac uchafswm o 20 fan gwersylla yn dymhorol, a gosod dau bwynt cysylltiad trydan |
| | Lleoliad: | Gupton Farm, Castlellmartin, Penfro, Sir Benfro, SA71 5HW |

Adroddwyd bod y cais hwn yn gofyn am ganiatâd cynllunio llawn ar gyfer newid defnydd oddeutu 4.5 hectar o dir oedd yn ffurfio rhan o ystâd ehangach yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ar benrhyn Castellmartin, i

ddarparu datblygiad twristiaeth a gwersylla tymhorol. Roedd y safle mewn dyffryn isel rhannol gaeedig, a'r ystyriaeth berthnasol arwyddocaol yn yr achos hwn oedd bod y safle, yn hanesyddol, wedi'i weithredu fel maes gwersylla tymhorol cyfreithiol o dan dystysgrif eithrio'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol.

Roedd y maes gwersylla presennol wedi bod mewn defnydd ers tua deng mlynedd ac ar hyn o bryd roedd yno wersylla pebyll tymhorol, a nifer cyfyngedig o leiniau ar gyfer faniau gwersylla, yn defnyddio'r seilwaith oedd ar y safle ar hyn o bryd, yn cynnwys cyfleusterau toiled a chawodydd, seilwaith trin carthion, llwybrau mynediad a llefydd parcio. Roedd y cynnig yn chwennych ffurfioli a dargyfeirio'r gweithredu presennol trwy ganiatáu mwy o hyblygrwydd o ran y math o letya, a rheoli'r lleiniau tra byddid yn cadw at faint cyfan y safle presennol o fwyafswm o 100 o bobl a 50 o leiniau fesul noson.

Roedd y wybodaeth a gyflwynwyd yn cadarnhau nad oedd y cais yn chwennych cynyddu cyfanswm nifer y preswylwyr ar y safle ond yn hytrach yn cynnig adleoli gwahanol fathau o letya trwy gynnig mwy o ddarpariaeth ar gyfer faniau gwersylla a chyflwyno podiau tir tymhorol. Cynigid y podiau tir fel adeileddau tymhorol yn sefyll ar eu pennau eu hunain heb ddraenio parhaol na chysylltiadau i wasanaethau, a byddid yn eu gwaredu o'r safle yn ystod misoedd Rhagfyr, Ionawr a Chwefror.

Roedd yna becyn cynhwysfawr o wybodaeth wedi'i gyflwyno gyda'r cais. Roedd y strategaeth tirweddu oedd wedi'i gyflwyno yn cynnwys lleoli podiau cilannog, tomenni pridd, plannu cloddiau brodorol, creu cynefinoedd prysg, sefydlu gweirglodd gyfoethog ei rhywogaethau, a mwy o fesurau hyrwyddo bioamrywiaeth i gyfuno'r datblygiad â'r dirwedd oddi amgylch, a sicrhau hyrwyddiad ecolegol.

Roedd y cais wedi'i gyflwyno gerbron y Pwyllgor fel cais o bwys ac am ei fod yn gwyro oddi ar elfennau o Bolisi 41 (Carafanau, Gwersylla a Datblygu Cabannau) a'r Cyfarwyddyd Cynllunio Ychwanegol Cabanau, Gwersylla a Charafanau am fod y safle yn cael ei ystyried yn wersyllfa tymhorol mawr mewn ardal arfordirol sensitif oddi fewn i Ardal Cymeriad Tirlun 6. Fodd bynnag, roedd y swyddogion o'r farn bod natur dymhorol y cynnig, y defnydd eithrio yn caniatáu gwersylla oedd eisoes yn ei le, absenoldeb unrhyw gynnydd yng nghapasiti cyfan y safle, y dyluniad oedd yn rhoi pwys ar y tirlun a'r fioamrywiaeth sylweddol, a'r buddiannau o ran rheoli ymwelwyr yn bendant o blaid y cynnig.

Roedd y swyddogion yn ystyried bod y cynnig wedi dangos yn foddhaol na fyddai'r datblygiad yn arwain at niwed annerbyniol i nodweddion arbennig, cymeriad tirlun, nodweddion bioamrywiaeth na mwynder Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro. Roedd yr ystyriaethau perthnasol o blaid y

cynnig felly yn gorbwyso’r pryderon polisi oedd wedi’u crybwyll yn yr achos hwn, a’r argymhelliad oedd dirprwyo cymeradwyo yn amodol ar osod amodau.

Yn y cyfarfod adroddwyd bod gwybodaeth ychwanegol wedi dod i law ar ôl cyhoeddi adroddiad y Pwyllgor yn mynegi pryder y dylai’r cynnig gynnwys gosod paneli solar fel rhan o’r datblygiad. Nododd y swyddog nad oedd codi adeiladau yn rhan o’r datblygiad a fyddai’n cynnig cyfle i gynnwys paneli o’r fath, ac felly nid oedd yr ohebiaeth yn codi materion cynllunio perthnasol gogyfer â phenderfynu’r cais. ,

Holodd un Aelod beth oedd y trefniadau presennol o dan drefn eithriad yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol oedd yn caniatáu 45 o bebyll a phump o faniau teithio yn hytrach na’r pum carafan a deg pabell oedd yn cael eu caniatáu yn arferol gan y Clwb Carafanio a Gwersylla er enghraifft. Cynghorodd y swyddogion bod tystysgrifau eithrio yn cael eu rhoi gan Lywodraeth Cymru yn hytrach na’r Awdurdod, ac roedd y rhain yn amrywio o fudiad i fudiad. Mynegwyd pryder hefyd ynghylch diogelwch a chadernid y system garthffosiaeth gwely brwyn oedd mewn defnydd ar hyn o bryd ar y safle. Nododd y swyddogion bod hyn wedi’i leoli cryn bellter o’r lleiniau ac y byddai cryn blannu o’i amgylch yn ogystal â gosod ffens.

Gofynnodd Aelod hefyd gwestiwn ynghylch effaith cerbydau mawrion mewn ardal mor sensitif â ph’un a oedd y cludiant yn gynaliadwy. Cynghorodd y swyddogion bod y cais yn cynnwys cymysgfa dda o bebyll a phodiau tir yn ogystal â faniau gwersylla, Yn ychwanegol roedd darpariaeth seiclo ar y safle ac roedd bws yn teithio heibio’r fynedfa. Mynegwyd y gobaith y byddai’r cais yn arwain at lai o barcio ymyl y ffordd gan faniau gwersylla yn yr ardal ond doedd dim tystiolaeth ynghylch hyn wedi’i gynnwys.

Ystyriodd yr Aelodau'r ffaith na fyddai cyfanswm cynnydd mewn nifer ar y safle, hyrwyddiadau bioamrywiaeth, natur dymhorol y datblygiad, ei effaith gweledol isel, a darpariaeth o safleoedd gwersylla a charafanau ar gyfer y rhai nad ydyn nhw’n medru fforddio gwyliau mwy drudfawr, oll yn ffactorau pwysig. Cafodd yr argymhelliad o ddirprwyo cymeradwyo ei roi gerbron gan Dr Havard, ei eilio gan y Cynghorydd Tinley a’i gario,

**Penderfyniad: Dirprwyo’r cais i swyddogion i’w gymeradwyo pan ddaw cyfnod yr hysbyseb gyhoeddus yn dynodi gwyriad oddi ar bolisi i ben, ac yn amodol ar osod amodau yn ymwneud ag amseru’r datblygiad, yn unol â chynlluniau a dogfennau wedi’u cymeradwyo, Datganiad Seilwaith Gwyrdd, goleuo allanol, gwerthusiad ecolegol a nodweddion hyrwyddo, misoedd gweithredu a hawliau Datblygiad wedi’i Ganiatáu Cyffredinol.**

[Gohiriwyd y Pwyllgor rhwng 11.55 a 12.10pm]

Cyflwynodd Ms H Gwenllïan ei ymddiheuriadau yn y fan hon a gadawodd y cyfarfod.

(d) Cyfeirnod: NP/26/0146/FUL
Cynnig: Codi adeilad amaethyddol ar gyfer ystablau magu ceffylau
Lleoliad: Iet Wen, Felindre Farchog, Crymych, Sir Benfro, SA41 3XF

Adroddwyd bod y cais hwn gerbron y Pwyllgor yn unol â'r cynllun dirprwyo am fod y Cyngor Cymuned wedi gwrthwynebu'r cais trwy godi materion cynllunio perthnasol, yn groes i argymhelliad y Swyddog i gymeradwyo.

Cynghorodd y Cynghorydd James ei fod wedi mynychu cyfarfod y Cyngor Cymuned pan gafodd hwn ei drafod ond nad oedd wedi cymryd unrhyw ran yn y drafodaeth na'r pleidleisio, ac roedd wedi dod i'r cyfarfod y diwrnod hwnnw gyda meddwl agored.

Roedd y cais yn chwennych caniatâd cynllunio i godi adeiladau amaethyddol/marchogol ac adeileddau cysylltiedig mewn cysylltiad â menter magu ceffylau. Roedd y cynnig yn cynnwys llety stablau, man storio bwyd a pheiriannau, mannau troi allan, man storio dom, tirweddu a mesurau hyrwyddo bioamrywiaeth oddi fewn i gae pori oedd yn hanesyddol gysylltiedig â defnydd marchogol trwy Stablau Marchogaeth Crosswell blaenorol.

Roedd y safle yn gorwedd oddi fewn i gefn gwlad agored lle'r oedd datblygiad wedi'i reoli'n llym o dan Bolisi 7 y Cynllun Datblygu Lleol 2. Fodd bynnag, roedd y cynnig yn ymwneud â menter wledig yn seiliedig ar y tir ac roedd yn hanfodol ei fod mewn lleoliad cefn gwlad. Fe'i hystyriwyd yn briodol mewn egwyddor, o ystyried cyd-destun y defnydd marchogol oedd eisoes wedi'i sefydlu yn y fro, a bod y datblygiad yn gymharol fychan o ran graddfa ac angenrheidiau gweithredu'r fenter.

Roedd y cynnig wedi'i ddiwygio o ganlyniad i drafodaethau cyn-gyflwyno er mwyn lleihau graddfa'r datblygiad a lleiafu'r swm o dir amaethyddol Graddfa 3a gorau a Mwyaf Hyblyg fyddai'n cael ei effeithio. Roedd yr adeiladau wedi'u trefnu mewn grŵp cyfyng ger y mynediad presennol a byddai'r rhan fwyaf o'r daliad ehangach yn parhau i gael ei ddefnyddio ar gyfer pori yn gysylltiedig â'r fenter.

Mewn termau gweledol a thirweddol roedd y cynnig yn cael ei ystyried yn dderbyniol, ac o ran graddfa, lleoliad a golwg amaethyddol yr holl adeiladau ar y cyd, ynghyd â'r tirweddu a'r mesurau lliniaru helaeth oedd wedi'u cynnig. Byddai plannu cloddiau brodorol, byfferau ecolegol a

thomenni pridd yn cynorthwyo integreiddio'r datblygiad i'r tirlun cefn gwlad ehangach, a lleihau ymwthio gweledol oddi fewn i'r Parc Cenedlaethol.

Roedd y cynnig hefyd yn cael ei ystyried yn dderbyniol o ran mwynder preswylio, bioamrywiaeth, materion draenio a mynediad. Roedd y Datganiad Seilwaith Gwyrdd oedd wedi'i gyflwyno yn dangos buddiant llawn i fioamrywiaeth trwy osod plannu brodorol, byfferau ecolegol a bocsys ystlumod ac adar. Doedd y cynnig ddim yn cael ei weld yn debygol o arwain at effeithiau annerbyniol ar fwynderau gerllaw, diogelwch priffyrdd, safleoedd wedi'u diogelu neu ddiddordebau ecolegol.

Roedd y cynnig yn cael ei weld yn gydnaws â pholisïau perthnasol y Cynlluniau Datblygu ac argymhellwyd ei gymeradwyo gydag amodau.

Adroddwyd yn y cyfarfod bod gwybodaeth priffyrdd ychwanegol wedi'i gyflwyno gan yr asiant ond, fodd bynnag, doedd yr Awdurdod Priffyrdd ddim wedi cael amser digonol i asesu'r wybodaeth yn gyflawn. O ganlyniad argymhellwyd y dylid cadw'r amod Cynllun Rheoli Adeiladu.

Mewn ymateb i gwestiwn, cynghorodd y swyddogion nad oedd y tir wedi'i gysylltu i'r adeiladau fferm ond ei fod yn ymwneud â busnes magu merlod Cymreig oedd wedi'i sefydlu. Cadarnhawyd hefyd nad oedd unrhyw gynigion i osod cyfarpar neidio i geffylau. Cynghorwyd nad oedd y cynhwysydd a ddangoswyd yn y ffotograffau yn bresennol pan gyflwynwyd y cais a phe bai yn aros ar y safle byddai rhaid cymryd camau gorfodaeth i'w waredu. Roedd yr asiant yn bresennol a phan gafodd ei holi dywedodd mai'r gobaith oedd y byddai'r cais wedi'i benderfynu cyn i'r cesyg yn y cae fwrw ebolion. Ond ni ddigwyddodd hynny a bydd y cynhwysydd yn cael ei waredu pan fydd y stablau yn eu lle.

Wedi i'r argymhelliad i gymeradwyo gael ei roi gerbron gan y Cynghorydd Clements a'i eilio gan Mr Hogg, cafodd y cais ei ganiatáu yn y bleidlais.

**Penderfyniad: Cymeradwyo'r cais gydag amodau yn ymwneud ag amseriad y datblygiad, yn unol â dogfennau a chynlluniau wedi'u cymeradwyo, Datganiad Rheoli Adeiladu ynghyd â Chynllun, yn unol â'r Datganiad Seilwaith Gwyrdd a'r Cynllun Hyrwyddo Bioamrywiaeth a goleuo allanol.**

Datgelodd y Cynghorydd V Thomas fuddiant personol a rhagfarnol yn y cais canlynol, ac ar ôl annerch fel ymgeisydd, gadawodd y cyfarfod tra oedd o dan drafodaeth.

(e) Cyfeirnod: NP/26/0044/FUL

Cynnig: Estyniad i'r wal ddeheuol ynghyd â decin a chanllawiau cysylltiedig, ehangu'r cyntedd ffrynt, ychwanegu pibellau haul ar y to presennol, creu llefydd parcio athraidd, a sied newydd yn yr ardd, codi ffens 1.8m o uchder ar y ffin ddwyreiniol, a phwmp gwres o'r aer yn yr ardd gefn

Lleoliad: Fox Lee, 11, Incline Way, Saundersfoot, Sir Benfro, SA69 9LX

Roedd y cais wedi'i gyflwyno gerbron y Pwyllgor am fod yr ymgeisydd yn Aelod o'r Awdurdod.

Adroddwyd bod y cais hwn yn chwennych caniatâd cynllunio ar gyfer estyniad i drychiad deheuol yr annedd bresennol, ymestyn y cyntedd presennol, creu lle parcio athraidd, gosod pibellau haul oddi fewn i lechwedd y to presennol, codi sied ardd newydd a wal ffin ddwyreiniol, ynghyd â gosod pwmp gwres o'r aer.

Ystyriwyd bod y cynnig yn cynrychioli ffurf o ddatblygiad wedi'i ddylunio'n briodol o ran graddfa, lleoliad ac ystyriaethau bioamrywiaeth. O ran deunyddiau a dyluniad, argymhellwyd amod yn gofyn am osod cladin pren yn lle'r cladin Cedral oedd wedi'i gynnig, er mwyn bod yn fwy cymesur ag anghenion dylunio cynaliadwy Polisi 29 o'r CDLl2, er cynghorodd y swyddogion yn y cyfarfod bod y cynllun wedi'i ddiwygio i waredu'r cladin ers ysgrifennu'r adroddiad, ac y gellid gwaredu Amod Pump o'r herwydd. Fodd bynnag, byddai angen diwygio Amod Dau i gynnwys y cynlluniau wedi'u diwygio oddi fewn i'r rhestr o ddogfennau wedi'u cymeradwyo.

Roedd y cais yn wreiddiol wedi'i wrthwynebu gan ymgynghorydd arbenigol o ran y golled bosib o goed a'r effaith ar fwynder lleol. O'r herwydd, cafodd y cynlluniau a gyflwynwyd eu diwygio er mwyn cadw dwy o'r coed pîn mwyaf gwerthfawr oedd wedi'u lleoli ar hyd ffin ddeheuol talar y cais.

Doedd yr estyniad a'r sied arfaethedig ddim yn cael eu hystyried yn debygol o achosi unrhyw effeithiau andwyol o bwys ar ansawdd yr amgylchedd na'r tirlun oddi amgylch, na chwaith yn cael eu hystyried o fod yn debygol o dremio nac yn weledol ymwthiol oddi fewn i'r olygfa stryd. O'r herwydd, roedd y datblygiad arfaethedig yn cael ei ystyried yn ddatblygiad fyddai'n cynnal cymeriad sefydlog yr ardal ac argymhellwyd ei gymeradwyo gydag amodau.

Nodwyd bod cais cysylltiedig i gadarnhau GDC ar gyfer coed yr eiddo i'w ystyried yn ddiweddarach yn y cyfarfod (Cofnod 7 cyfeir). Roedd yr argymhelliad i wneud GDC rhagblaen wedi codi o ganlyniad i'r Swyddog Coed a Thirwedd yn bwrw golwg ar y cais hwn.

Roedd yna un siaradwr, Mrs V Thomas, yr ymgeisydd. Esboniodd bod y cais gwreiddiol yn cynnig gwaredu'r coed o'r eiddo am nad oedden nhw ar y pryd o dan Orchymyn Diogelu Coed (GDC). Yn dilyn llunio GDC drafft ar ddwy goeden cyflwynwyd cynlluniau wedi'u diwygio yn cadw'r coed ac yn symud yr estyniad arfaethedig ymhellach i ffwrdd er mwyn diogelu eu gwreiddiau. Serch hynny, roedd hi'n ystyried y byddai cadw'r coed yn effeithio'n andwyol ar fwyniant y cartref. Nododd mai coed pinwydd nad oedden nhw'n frodorol oddeutu 35-40tr oedd y rhain a'u bod yn tremio dros y byngalo a'r estyniad arfaethedig ac yn arwain at golli golau. Roedd adroddiad ei harbenigwr coed wedi dod i'r casgliad bod y coed wedi'u plannu yn rhy agos at yr eiddo ac i'w gilydd a'i farn ef oedd y dylid eu gwaredu. Nododd bod archwiliadau'r ddaear oddi amgylch wedi dangos bod gwreiddiau'r coed wedi cyrraedd y garej a'u bod yn neshau tuag at y tŷ. Nododd Mrs Thomas ei bod wedi gofyn am ganiatâd i siarad am fater y GDC ond roedd wedi'i chynghori nad oedd gweithdrefn yn ei le ar hyn o bryd i ganiatáu hyn.

Cadarnhaodd y swyddogion nad oedd siarad yn gyhoeddus ynghylch ceisiadau GDC wedi'i ganiatáu ac er mwyn cysondeb dyna oedd y sefyllfa o hyd. Nodwyd bod newidiadau cyfreithiol yn ymwneud â choed a GDC yn debygol yn ystod y chwech mis oedd i ddod ac y gallai fod yn briodol adolygu'r gweithdrefnau presennol yr adeg hynny.

Gofynnodd yr Aelodau gwestiynau yn ceisio deall effaith y goeden a'i gwreiddiau ar yr eiddo ond fe'u cynghorwyd nad oedd hyn yn berthnasol i'r cais. Cynghorodd y Swyddog Coed a Thirwedd ei bod yn bosib defnyddio deunyddiau geotecstil i annog y gwreiddiau i ffwrdd o'r estyniad arfaethedig.

Cynigiwyd yr argymhelliad i gymeradwyo gydag amodau yn cynnwys diwygiadau a nodwyd yn y cyfarfod gan y Cynghorydd Clements, a'i eilio gan Dr Havard ac fe'i cariwyd.

**Penderfyniad: Cymeradwyo'r cais gydag amodau yn ymwneud ag amseru'r datblygiad, yn unol â dogfennau a chynlluniau wedi'u cymeradwyo, Datganiad Seilwaith Gwyrdd a goleuo allanol.**

Datgelodd y Cynghorydd V Thomas fuddiant personol a rhagfarnol yn y mater canlynol a gadawodd y cyfarfod tra oedd yn cael ei ystyried.

Cyflwynodd y Cynghorydd Clements ei hymddiheuriadau a gadawodd y cyfarfod yn ystod yr ystyriaeth o'r eitem ganlynol.

**7. Materion Cynllunio Eraill – TPO168 11 Incline Way, Saundersfoot**

Adroddwyd bod Gorchymyn Diogelu Coed (GDC) 168 wedi dod i rym ar unwaith ar gyfer dwy goeden pinwydd ar hyd ffin 11 Incline Way, Llanusyllt (Saundersfoot) ar 14eg Ebrill 2026, yn dilyn cais cynllunio yn ymwneud â'r eiddo (Cofnod 6(e) cyfeir). Roedd rhaid i'r Awdurdod benderfynu cadarnhau'r GDC, fel yr oedd neu gydag addasiadau, o fewn chwe mis o'i gyflwyno er mwyn iddo barhau i fod mewn grym.

Cafodd y coed eu hasesu a gwnaed GDC i'w weithredu ar unwaith oherwydd mai dyna oedd orau ym marn y swyddog cynllunio sy'n arbenigo mewn materion coed a thirwedd am eu bod yn gwneud cyfraniad sylweddol i fwynder y llecyn. Nododd yr adroddiad bod trydedd coeden oedd yn ffurfio rhan o'r grŵp mewn cyflwr gwantan ac nad oedd yn bodloni'r meini prawf ar gyfer GDC.

Gwrthwynebwyd y GDC am amrywiaeth o resymau fel sydd wedi'u gosod allan yn yr adroddiad gerbron y Pwyllgor, deliwyd â nhw ac ni chawsant eu diddymu. Mae Rheoliadau (Coed) Cynllunio Gwlad a Thref 1999 yn nodi na ddylai'r Awdurdod gadarnhau gorchymyn bydden nhw wedi'i wneud oni bai eu bod yn gyntaf wedi ystyried unrhyw wrthwynebiadau a gohebiaeth fyddai wedi dod i law yn ei gylch a heb ei ddiddymu.

Er bod y swyddogion yn cydnabod bod estheteg weledol coed - grŵp o goed - yn fater goddrychol, roedd canllawiau gwrthrychol dros gyflwyno Gorchymyn Diogelu Coed oll wedi'u bodloni gan y ddwy goeden o dan sylw, wrth ystyried eu heffaith ar weledededd a'u gwerth o ran mwynder. Ni ystyrid bod y coed unigol yn amharu ar botensial coed eraill am nad oedd yna rywogaethau penodol yn y cyffiniau.

Nodwyd bod gwaith tocio coedyddiaeth dda wedi'i gymeradwyo yn bosib i sicrhau na fyddai rhwystr mynediad ar hyd y ffordd gyhoeddus a'r un modd nodweddion eraill (e.e. goleuadau stryd), a byddai cadw pellter clir rhwng y coed a'r estyniad arfaethedig yn debygol o gael ei gefnogi o dan geisiadau GDC addas yn y dyfodol. Yn ychwanegol, byddai dulliau adeiladu addas (gosod atalydd gwreiddiau) yn atal anawsterau andwyol yn y pridd rhwng y coed a'r adeilad arfaethedig.

Heb anghofio'r gwrthwynebiadau gan y tirfeddianwyr, argymhellwyd cadarnhau Gorchymyn Diogelu Coed 168 heb unrhyw addasiadau.

Mewn ymateb i gwestiynau esboniodd y Swyddog Coed a Thirwedd bod gwerth y coed wedi'u hasesu trwy ddefnyddio TEMPO (Dull o Werthuso Coed ar gyfer Gorchmynion Diogelu) a chadarnhaodd nad oedd rhywogaeth coeden yn berthnasol er mwyn gosod GDC ond y gwerth mwynderol, gweledol a'i hirhoedledd. Roedd o'r farn bod y coed o dan sylw tua 30/40 mlwydd oed, ac y gallai eu hoes bara eto hyd at rhywle

rhwng 40 i 100 mlynedd. Cadarnhaodd nad oedd bodolaeth GDC yn rhwystro rheoli coeden am ei bod yn bosib gofyn am ganiatâd i'w chynnal a'i chadw neu hyd yn oed waredu tra byddai'n bosib gwaredu canghennau wedi pydru heb ganiatâd. Doedd dim costau yn glwm wrth geisiadau o'r fath.

Holodd rhai Aelodau pam fod coed oedd yn dangos olion difrod neu glefyd yn cael eu diogelu, o ystyried diogelwch cyhoeddus, a heb gydnabod eu heffaith ar y dirwedd neu werth mwynderol. Nododd y swyddog fod Polisi Cynllunio Cymru yn cynghori cadw coed oni bai bod yna fuddiant cyhoeddus o'u gwaredu am eu bod yn darparu ocsigen, cynefin a nodweddion gweledol yn y dirwedd.

Roedd Aelodau eraill yn ystyried bod y rhain yn goed pwysig ac iddyn nhw werth mwynder pwysig oddi fewn i'r ystâd ac nad oedd gosod GDC yn golygu na fyddai'n bosib eu rheoli. Pwysleisiwyd hefyd bwysigrwydd coed i liniaru newid hinsawdd, yn arbennig mewn tirweddau trefol lle'r oedden nhw hefyd yn darparu cysgod. Cynigiwyd gan Dr Havard, ac eiliwyd gan y Cynghorydd Bowen bod y GDC yn cael ei gadarnhau heb ei addasu. Cafodd hwn ei gario yn y bleidlais.

**Penderfyniad: Cadarnhau Gorchymyn Diogelu Coed 168 heb addasiadau.**

Cyflwynodd y Cynghorwyr C Williams ac S Skyrme-Blackhall eu hymddiheuriadau a gadawsant y cyfarfod yn y fan hon.

**8. Apeliadau**

Adroddodd Arweinydd y Tîm Rheoli Datblygu am naw o apeliadau (yn erbyn penderfyniadau cynllunio'r Awdurdod) oedd ar hyn o bryd wedi'u cofrestru gyda Llywodraeth Cymru, gan fanylu ynghylch ble mae pob un wedi cyrraedd o ran y broses apêl.

Adroddwyd am dri penderfyniad.  Y rheiny oedd NP/24/0454/FUL – Newid defnydd o uned storio bad achub i uned cludfwyd (A1) – Hen Storfa Bad Achub y Glannau, Harbwr Dinbych-y-pysgod, Dinbych-y-pysgod  a NP/24/0602/FUL – Estyniad tan ddaear i adeilad cysylltiol yn Sleekstone House a thirweddu cysylltiol - Sleekstone, Haroldston Hill, Aber Llydan wedi'i ganiatáu tra bo NP/25/0085/FUL Newidiadau ac estyniad i eiddo sy'n bod eisoes - Môr Awelon, Heol y Gaer, Solfach wedi'i wrthod.

**Nodwyd.**

| |
|---|
| Cadarnhawyd y cofnodion hyn yn y cyfarfod o'r Pwyllgor Rheoli Datblygu a gynhaliwyd ar 15 Gorffennaf 2026 heb eu diwygio. |